# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 20 Chwefror 2002

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dynodir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Faterion Gwledig

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u gwneud i Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ynghylch y rheol 20 diwrnod sy'n rheoli symudiadau da byw. (WAQ15979)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** A yw adran y Gweinidog wedi paratoi cynllun wrth gefn neu gynllun mwy diweddar i ddelio ag achosion o glefyd anifeiliaid yng Nghymru. (WAQ15980)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Beth y mae'r Gweinidog wedi'i wneud i adolygu a gwella'r rheolaethau ar fewnforio cig. (WAQ15978)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Beth yw polisi'r Gweinidog ar drosglwyddo rhagor o bwerau o Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig i'r Cynulliad. (WAQ15981)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Beth y mae'r Gweinidog wedi'i wneud i gynyddu nifer y cyfleusterau llosgi anifeiliaid yng Nghymru. (WAQ15982)

Gofyn i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Pa gyllid y mae'r Cynulliad yn ei roi'n uniongyrchol i'r undeb rygbi yng Nghymru, trwy Gyrff Cyhoeddus a Noddir ganddo ac ar ffurf cymorth i Undeb Rygbi Cymru a hefyd ar brosiect Stadiwm y Mileniwm. (WAQ15983)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Sut y mae cyllid y Cynulliad ar gyfer yr undeb rygbi yng Nghymru yn helpu rygbi i dyfu yn y cymunedau lleol a darparu cyfleusterau mewn ysgolion a mannau eraill. (WAQ15984)

Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Thai

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Faint a ymatebodd i'r hysbyseb y cyfeirir ati yn WAQ15813. (WAQ15985)